Hawdd ei Ddeall

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Ebrill 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o 'r crynodeb o:
**Anghenion Dysgu Ychwanegol - Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod os ydy'r system yn gweithio?**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Archwilio Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.audit.wales/cy

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn fersiwn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma** ........ 4


**Pam mae'r gwaith yma yn bwysig** ........ 5

**Beth rydyn ni wedi ei wneud** ........ 7

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** ........ 9

**Ein syniadau** ........ 12

# Am yr adroddiad yma




Mae'r adroddiad yma am gymorth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.




Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei alw yn **ADY**.

Mae gan blentyn neu berson ifanc ADY os:



- Mae ganddyn nhw anhawster dysgu. Mae hyn yn meddwl eu bod yn gweld dysgu yn llawer anoddach na'r rhan fwyaf o bobl eraill eu hoedran.

Neu



- Mae ganddyn nhw anabledd sy'n eu stopio, neu'n ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw fynd i'r ysgol neu'r coleg

# Pam mae'r gwaith yma yn bwysig




Mae gan blant a phobl ifanc ag ADY anghenion gwahanol.




Mae yna system i'w helpu i wneud y gorau maen nhw'n gallu. Rydyn ni'n ei alw'n system ADY.




Fe wnaeth cyfraith newydd yn 2018 newid y system ADY.



Roedd yr hen system weithiau'n ddryslyd.




Nod y system newydd ydy:

- Gweithio'n well gyda'ch gilydd.
- Canolbwyntio ar anghenion pob person.




Nawr, fe dddylai pob dysgwr ag ADY gael **Cynllun Datblygu Unigol**.



Mae **Cynlluniau Datblygu Unigol** yn helpu ysgolion neu golegau i ddeall sut i gefnogi dysgwyr yn y ffordd orau.



Ond fe wnaethon ni weld bod rhai problemau gyda'r system ADY newydd o hyd.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaethon ni edrych ar sut mae'r system yn gweithio. Ac os oes unrhyw broblemau.



Fe wnaethon ni edrych os oedd cyrff cyhoeddus yn gwybod:

- Faint o bobl sydd angen cefnogaeth.




- Os oes digon o staff gyda'r sgiliau cywir.




- Faint mae cymorth yn ei gostio.



- Pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud.

Fe wnaethon ni edrych yn bennaf ar:

- Llywodraeth Cymru



- Cynghorau



Fe wnaethon ni ganolbwyntio'n bennaf ar beth maen nhw'n ei wneud i gefnogi dysgwyr ADY mewn ysgolion.

Fe wnaethon ni hefyd edrych ychydig ar:




- Gwasanaethau blynyddoedd cynnar
- Byrddau iechyd
- Addysg bellach

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Mae’r system ADY o dan bwysau.




Does gan gyrff cyhoeddus ddim digon o wybodaeth. Dydyn nhw ddim yn gwybod yn llawn:

- Faint o ddysgwyr sydd angen cefnogaeth.
- Faint mae cymorth yn ei gostio.
- Pa mor dda mae dysgwyr yn gwneud.




Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd cynllunio a gwella’r system.




Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i wella pethau.



Mae angen mwy o waith i wneud yn siŵr bod y system ADY yn gweithio’n dda i blant a phobl ifanc.

## Fe wnaethon ni ddod o hyd i’r problemau yma:




- Does dim digon o wybodaeth am faint o blant a phobl ifanc sydd angen help. Neu pa mor **gymhleth** ydy eu hanghenion.


- Nid oes digon o wybodaeth am niferoedd staff a’u sgiliau.



- Dydy cyrff cyhoeddus ddim yn gwybod digon am faint mae cymorth ADY yn ei gostio.



- Mae’n anodd dweud ydy’r system ADY yn mynd i allu parhau i weithio yn y dyfodol.




- Dydyn ni ddim yn gwybod os ydy plant a phobl ifanc yn cael canlyniadau da.



- Gall y system ADY newydd deimlo’n anodd o hyd i rai pobl

# Ffeithiau allweddol



Mae gan tua 48 mil o ddysgwyr hyd at 25 oed ADY.



Mae nifer y dysgwyr ysgol sydd ag ADY wedi gostwng.




Mae nifer y dysgwyr sydd â chefnogaeth fel **Cynllun Datblygu Unigol** wedi cynyddu.




Mae cost gwasanaethau ADY yn agos at £1 biliwn y flwyddyn. Ond mae'r gost go iawn yn gallu bod yn uwch.



Mae cynghorau yn gwario mwy ar ADY nag yn y gorffennol.

# Ein syniadau



Casglu gwell gwybodaeth am:


- Dysgwyr gydag ADY.
- Staff sy'n eu cefnogi.



Gwneud costau cymorth yn gliriach.



Casglu mwy o wybodaeth am ba mor dda mae dysgwyr ag ADY yn gwneud.




Y nod ydy cynllunio'n well a gwneud yn siŵr bod cefnogaeth yn gweithio'n dda.



Fe ddylai Llywodraeth Cymru arwain y newidiadau yma.



Er mwyn i’n syniadau weithio’n dda, mae angen i gyrff cyhoeddus eraill hefyd gymryd rhan.